



Cynorthwydd Rheoli Adnoddau Dynol
Parhaol - 14.8 awr yr wythnos (potensial i gynyddu oriau mewn camau
hyd at 37 awr yr wythnos erbyn Mis Mawrth 2020)
Pencadlys, Parc Busnes Llanelwy
Gradd 05 GTAGC £22,021 - £23,836 pro-rata y flwyddyn

Darparu cefnogaeth gynhwysfawr a chyfrinachol i'r Adran Adnoddau Dynol, gwneud yn siŵr bod yr holl swyddogaethau Adnoddau Dynol yn cael eu prosesu a'u gweinyddu'n effeithiol; gan gynnwys recriwtio a rheoli presenoldeb.

CYMWYSTERAU I'W HARDDANGOS

Mae'r rôl yn gofyn am ymgeiswyr sy'n gallu arddangos (gyda thystiolaeth) sgiliau yn yr meysydd canlynol:

Gofynion Hanfodol

- Sgiliau cyfathrebu rhagorol drwy gyfrwng y Saesneg, (yn ysgrifenedig ac ar lafar, gyfystyr â Sgiliau Hanfodol Lefel 2)
- Sgiliau TG canolradd gan gynnwys gwybodaeth weithredol am becynnau Microsoft
- Sgiliau rhifydddeg da er mwyn creu adroddiadau ystadegol
- Profiad o ddefnyddio cronfeydd data TGCh a chreu adroddiadau ystadegol
- Y gallu i fewnbynnu data'n gywir a theipio o leiaf 35 gair y funud
- Tystiolaeth o allu rhoi sylw i fanylder
- Sgiliau trefnu da gyda'r gallu i weithio ar eich liwt eich hun a blaenoriaethu tasgau i gwblhau gwaith mewn pryd
- Y gallu i weithio fel aelod o dîm
- NVQ Lefel 3 neu gymhwyster cyfatebol mewn maes perthnasol (e.e. Gweinyddiaeth Fusnes, CIPD) neu brofiad cyfatebol a pherthnasol gyda thystiolaeth
- Dealltwriaeth dda o Amodau Gwasanaeth Llywodraeth Leol a'r Ddeddfwriaeth Cyflogaeth yn gyffredinol
- Cymraeg Lefel 2 – Siarad a Gwranddo o fewn y cyfnod prawf 12 mis os nad yw eisoes wedi ei brofi yn ystod y broses ymgeisio – bydd cefnogaeth a hyfforddiant ar gael fel bo angen)– Mynnir eich bod yn gallu; Deall hanfodion sgwrs yn y gweithle. Ymateb i ofynion syml yn ymwneud â'r swydd a cheisiadau am wybodaeth ffeithiol. Gofyn cwestiynau syml a deall ymatebiadau syml. Mynegi rhywfaint o'ch barn cyn belled bod y pwnc yn gyfarwydd. Deall cyfarwyddiadau pan ddefnyddir iaith syml.

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw hanner dydd, 25 Mawrth 2019

Glynir at y dyddiad cau ac ni fydd eithriadau.

Mae rhagor o fanylion a ffurflenni cais ar gael ar wefan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, neu o'r Adran Adnoddau Dynol ar 01745 535280 neu drwy anfon e-bost i Hrdesk@gwastan-gogcymru.org.uk

*Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal a chroesawn geisiadau gan bob rhan o'r gymuned.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r ddwy ac yn ymateb yn eich dewis iaith heb oedi.*

